## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (ABER-ARTH, CEREDIGION) (GWAHARDDIAD DROS DRO AR DROI I'R CHWITH) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, yn Aber-arth yn Sir Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag troi i'r chwith ar y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd i ffordd sirol yr C1056 yn Aber-arth, Ceredigion.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de sy'n dymuno troi i'r chwith er mwyn ymadael â chefnffordd yr A487 fydd parhau tua'r de i Aberaeron, ac ailymuno â'r A487 yno tua'r gogledd er mwyn ymadael drwy droi i'r dde.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos (rhwng 21:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch) o 10 Gorffennaf 2023 hyd 15 Gorffennaf 2023, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A487 TRUNK ROAD (ABERARTH, CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION OF A LEFT HAND TURN) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road at Aberarth in the County of Ceredigion.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from making a left hand turn on the length of the southbound carriageway of the trunk road on to the C1056 county road at Aberarth, Ceredigion.

The alternative route for southbound traffic wishing to turn left to exit the A487 trunk road will be to continue southbound to Aberaeron, there re-join the A487 northbound to exit via a right hand turn.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, will operate overnight (21:00 hours to 06:00 hours) from 10 July 2023 until the 15 July 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government